CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION o gyfarfod Llawn y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 6:30 o'r gloch, **NOS LUN**, **10fed o FEDI 2018** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llangefni.

PRESENNOL:

Cyng. Margaret Thomas – Dirprwy Faer - Cadeirydd
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Llinos G.Jones
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Huw Owen

CLERC : Mr. Rhys Parry -
Ms. Linda Powell, Cymorthydd Clerigol

18/103 **YMDDIHEURIADAU :**
Cyng. Ieuan G. Davies – Maer
Cyng. Terry Jones, Cyng. John Lee,
Cyng. Non W. Parry, Cyng. Dylan W Rees
Cyng. Christine Roberts.

18/104 **DATGANIAD O DDIDDORDEB : Dim**

18/105 **ADRODDIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU :**
PCSO yn adrodd yn ôl ar y canlynol :

(a) **Fflatiau Glan Cefni :** Cyngor Sir Ynys Môn am addasu drws y brif fynedfa, ac edrych i fewn i gael system Camerâu. Heddlu am batrolio'r ardal.
(b) **Diogelwch o gwmpas Parc Chwaraeon Trefol :** Y safle gyda system monitor mewn lle a'r Heddlu yn cael gwybod os bydd unrhyw broblem.
(c) **Maes Chwarae Lon Las :** Er mwyn amddiffyn y Lawnt Bowlio bydd angen i'r giatiau fod ar gau mewn amser rhesymol. Cadarnhau fod Yswiriant mewn lle.
(d) **Lawnt Bowlio - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol :** Yn dilyn arolwg o'r safle yma, awgrymu buasai System Camerau CCTV yn fuddiol. Bydd preswylwyr eiddo cyfagos yn rhoi gwybod i'r PCSO's os bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn mynd ymlaen ar y Lawnt Bowlio.
(e) **Parcio B5109 :** Cwynion wedi eu derbyn fod cerbydau unwaith eto yn parcio ar y ffordd yma. PCSO am fynd i gael gair gyda'r preswylwyr ynglŷn â rheolau parcio cerbydau ar y ffordd.

18/106 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 02.07.2018 :**
Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Huw Owen yn Eilio fod y Cofnodion yn gywir.
Derbyn

18/107 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 02.07.2018 :**

1 **Eitem 18/053.1 : Toiledau Cyhoeddus :** Yn dilyn derbyn ymateb gan y Gweinidog, Mr. Vaughan Gething, Cyng. Victor Hughes yn awgrymu ysgrifennu at Gyngor Sir Ynys Môn yn dweud fod y Cyngor Tref yn awyddus i foderneiddio'r Toiledau Cyhoeddus yn unol â llythyr y Gweinidog.
Cyng. J. Egryn Lewis eisiau i'r Clerc holi'r Cyngor Sir ynglŷn â'r costau adnewyddu.

2 **Eitem 18/053.2 : Tŷ Clwb, Lon Talwrn, Llangefni :** Clerc yn adrodd i'r Aelodau fod y Cyfreithiwr wedi anfon llythyr i'r Tenantiaeth sydd wedi datgan eu bod yn barod i arwyddo'r "Deed of Surrender" ar dderbyn y siec. Allan o'r cyfanswm bydd y rhent dyledus a'r trydan yn cael ei ddidynnu. Bydd y geriadau yn cael ei derbyn yn y Swyddfa pan fydd y dogfennau wedi cael eu harwyddo.
Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd ei fod yn angenrheidiol i'r Aelodau ymweld â'r Ty Clwb ar ôl cwblhau'r uchod - dyddiad i drefnu - Derbyn.

3 **Eitem 18/053.3 – Agor y Rheilffordd i Llangefni –** Llythyr wedi ei dderbyn gan Mr. Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Economi a Thrafnidiaeth, gydag ymateb siomedig yn datgan nid ydynt yn bwriadu ail-agor lein Llangefni i Amlwch.

4 **Eitem 18/053.4 - Diogelwch yn ardal yr Ysgol Gyfun :** Clerc wedi paratoi llythyr i anfon at yr Ysgolion cyfagos yn gofyn am gefnogaeth i gael arwyddion 20MYA mewn lle gan Gyngor Sir Ynys Môn.

5 **Eitem 18/053.6 - Cyfoeth Naturiol Cymru :** Dim ymateb wedi ei dderbyn ynglŷn ag amserlen cychwyn ar y system modelu ynglŷn â'r llifogydd yn y dyfodol. Cyng. Margaret Thomas yn datgan fod gwaith wedi cael ei wneud yn ardal Afon Cefni.

6 **Eitem 18/053.7 - Rheolau Diogelu Data Cyffredinol - GDPR :** Trafodwyd cynnig Un Llais Cymru i gynnal hyfforddiant yn Siambr y Cyngor am £399.00 & TAW i 20 o Aelodau. Cyng. Llinos Jones yn adrodd fod Hyfforddiant Ar Lein ar gael a buasai'r Aelodau yn gallu symud ymlaen yn y ffordd yma gan ddangos Tystysgrif ar y diwedd - **Derbyn.**
Cyng. J. Egryn Lewis yn gallu mynychu yn y Swyddfa ar gyfer gwblhau'r Hyfforddiant Ar Lein.

7 **Eitem 18/050. Safle Hafan Cefni -** Disgwyl dyddiad i ymweld â'r safle

18/108 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN ARBENNIG 03.09.2018 - Derbyn**

Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd ei bryder fod ffigyrau yn cael eu cynnwys yn y Cofnodion na ddylid ymddangos yn gyhoeddus.
Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig fod y ffigyrau yn cael eu dileu o'r Pecyn fydd yn ymddangos yn y Llyfrgell. Cyng. Llinos Jones yn Eilio.
Penderfynwyd i'r Cymorthydd Clerigol drefnu hyn.

18/109 **I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR Y FYNWENT A MEYSYDD CHWARAE 11.07.2018**

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig i dderbyn yr argymhellion - Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio.

Materion yn Codi o'r Cofnodion :

1 **Eitem 18/068.1 Y Fynwent :** Clerc yn adrodd, fod y Swyddfa ddim wedi derbyn ymateb ysgrifenedig oddiwrth Swyddogion yn Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â ddrefnu cyfarfod i drafod unrhyw dir ychwanegol ar gyfer mannau claddu. Clerc i ddilyn hyn i fynnu – **Cytuno fod angen pwyso ar Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn.**

Cyng. Margaret Thomas yn awgrymu ail ystyried y cais blaenorol gyda'r Cwmni a wnaeth yr Arolwg tyllau turio diweddar a hefyd edrych i mewn i Reolau Claddu ar ol 100 mlynedd.

Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd fod Cyngor Sir Ynys Mon wedi nodi mannau o dir cyfagos ar gynllun yn ddiweddar – **Angen pwyso ar Swyddogion y Cyngor Sir i roi cymorth i ni ar frys – Cytuno.**

2 **Eitem 18/069 - Meysydd Chwarae :**

1. Cae Maes Chwarae Lon Newydd :

(b) Terfyn y Cae Chwarae : Clerc wedi anfon tri cais am Amcan bris at Gontractwyr Lleol - wedi derbyn un ymateb. Clerc i ddilyn hyn i fynnu.

3 **Eitem 18/070 - Archwiliad ROSPA 2018** - Clerc yn adrodd bydd y canlyniadau ynghlwm a Rhaglen Pwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 26ain o Fedi 2018 – **Derbyn.**

4 **Eitem 18/071 : Cae Criced :** Clerc yn adrodd ei fod yn y broses o drefnu Cyfarfod gyda'r Ymddiriedolwyr – **Derbyn.**

5 **Eitem 18/072 - Ty Clwb, Safle Pêl Droed, Lon Talwrn :** Clerc yn adrodd, fod y Tenantiaid wedi cytuno i dderbyn siec gan y Cyngor Tref i ddod a'r tenantiaeth i ben. Allan o'r cyfanswm, bydd dau fis o rent a'r bil trydan yn cael eu didynnu. Bydd y Ddogfen "Deed of Surrender" yn cael ei harwyddo a'r goriadau yn cael eu danfon i'r Swyddfa **Derbyn**

18/110

1 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU PWYLLGOR CYNLLUNIO 18.07.2018**

Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan pryderon fod y Pwyllgor Cynllunio gyda'r awdurdod i wneud penderfyniad ar y Ceisiadau Cynllunio ac nid Argymhellion, fel yr Is-bwyllgorau eraill.
Cyng. Llinos Jones yn adrodd fod y Pwyllgor Cynllunio gyda'r hawl i wneud penderfyniadau ac anfon argymhellion o'r penderfyniadau i Adran Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Mon, sydd a'r hawl statudol.
Penderfynwyd ail-edrych ar Gofnodion hanesyddol i ddatrys yr uchod – **Derbyn.**

Eitem 18/110.2 Cais Cynllunio 34C553D – Tir Ger Tyn Coed - Aelodau yn cadarnhau i Cyng. Huw Owen maint o dai oedd yn cael eu cynnwys o fewn Cais - **Derbyn**

2 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU PWYLLGOR CYNLLUNIO BRYS 23.08.2018**

Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw Aelodau at Cais Cynllunio 34C263J/SCR - Datblygiad Dafarn Newydd. Aelodau yn cytuno gydag awgrymiad Cyng. Lewis, oherwydd maint y datblygiad, fod y Cais yma yn cael ei drafod mewn Cyfarfod Llawn, gyda chyfle i'r holl Aelodau adrodd eu barn. **Derbyn**

18/111 **I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR STAFFIO A SAFONAU 18.07.2018**

Yn absenoldeb y Swyddog Cyfrifol Ariannol, penderfynwyd gohirio'r Eitem uchod gan fod materion yn codi o'r Cyfarfod oedd angen mewnbwn y Swyddog Ariannol Cyfrifol, sef,

- Swydd y Clerc
- Cyflogau'r Staff

Derbyn gohirio oherwydd yr amgylchiadau.

18/112 **I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 25.07.2018**

Oherwydd absenoldeb y Swyddog Cyfrifol Ariannol a Chadeirydd y Pwyllgor uchod, Cyng. Llinos Jones yn Cynnig gohirio'r Eitem uchod - Cyng. J. Egryn Lewis yn Eilio - **Derbyn**

Bydd y ddwy Eitem uchod yn cael eu cynnwys ar Raglen Cyfarfod Llawn 01.10.2018

18/113 **I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER**

Cyng. Margaret Thomas, Dirprwy Faer yn arwain yr Aelodau trwy'r canlynol yn absenoldeb y Maer, Cyng. Ieuan G. Davies :

- **Parkrun, Nant y Pandy** - Agoriad Swyddogol yn llwyddiannus iawn a llawer yn parhau i ymuno
- **Sul y Maer 30.09.2018** – Cynghorwyr i ymateb i'r Gwahoddiad
- **Derbyniad Blynyddol Llu Awyr, Fali –** Dirprwy Faer wedi mynychu ar ran y Maer.

18/114 **MATERION YN CODI GAN AELODAU**

1 **Gwerthiant a Photensial o Gau'r Clwb Golff :** Datganiad Menter Gymdeithasol Llangefni wedi ei anfon i'r Aelodau yn cadarnhau na fydd y Fenter yn ymgeisio am estyniad i'r Les nac "Community Asset Transfer".
Dirprwy Faer yn adrodd fod Cyng. Terry Jones dal i geisio symud ymlaen.

2 **Safle Nwy :** Cyng. J. Egryn Lewis yn awgrymu ail-agor y drafodaeth gyda Wales & West Utilities Ltd. i'r safle yma gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref. Clerc am edrych i fewn i hyn. **Derbyn**

3 **Safle Ysbyty Cefni ger Home Bargains :** Clerc yn cadarnhau ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i wneud ymholiadau os fydd yn bosib i'r Cyngor Tref roi meinciau/byrddau picnic, ar y safle gwyrdd o fewn yr ardal yma.

Derbyn - fod cynnig ysgrifenedig yn cael ei wneud i'r Bwrdd Iechyd a disgwyl ymateb ysgrifennegid yn ol gan y Bwrdd i gadarnhau hyn.

Cyng. Llinos Jones yn adrodd fod gordyfiant ar lwybr cyhoeddus o gwmpas ardal Felin y Graig. Clerc i wneud ymholiadau gyda Cyngor Sir Ynys Mon i drefnu cael gwneud y gwaith.

18/115 **ADRODDIAD Y CLERC**

Clerc yn adrodd ar y canlynol :

1 **Goleuadau Nadolig 2018 :** Cadarnhau fod y goleuadau yn cael eu troi ymlaen Nos Wener 7fed o Ragfyr 2018.

2 **Neuadd y Sir :** Cadarnhau fod y Tendr wedi ei ddanfon i Gyngor Sir Ynys Mon.

3 **Safle Cae Criced :** Cadarnhau fod y Clerc wedi cyfathrebu gydag un o'r Ymddiedolwyr i drefnu cyfarfod a dyddiad hwylus i'r partïon i gyd. Disgwyl cadarnhad o ddyddiad. **Derbyn**

4 **Cae Chwarae, Lon Newydd :** Cadarnhau fod Cynrychiolwyr o'r Cyngor Tref wedi ymweld â Chyfreithiwr ac wedi derbyn cyngor ynglŷn â'r safle yma. Cafwyd cadarnhad fod y tir yma o dan reolaeth Cyngor Tref Llangefni.

5 **Cytundeb Clwb Bowlio :** Cadarnhau fod y Cytundeb wedi ei harwyddo am y flwyddyn a'r Ffi flynyddol wedi ei dalu.

6 **Seddi Gwag :** Bydd Rhybuddion ar gyfer Seddi Gwag Ward Cyngar a Ward Cefni yn cael eu harddangos mewn mannau cyhoeddus yr wythnos yma. **Derbyn**

18/116 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL**

1 **Cyngor Sir Ynys Mon – Gweithdy Lle – 05.07.2018 –** Cyng. Margaret Thomas a'r Clerc wedi mynychu'r Cyfarfod.

2 **Grŵp Adfywio Llangefni 12.07.2018 -** Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod hwn y cyfarfod cyntaf ers amser. Y Grŵp wedi cael grant er mwyn galluogi gweithio ar y cyd gyda Menter Mon. Mae'r Grŵp yn y broses o hysbysu swydd glerigol ar gyfer paratoi Cofnodion a.y.b. Aelodau yn cytuno bod angen i'r Cyngor Tref fod mwy blaenllaw o fewn gwaith y Grŵp. Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan ei siom nad oes adborth ysgrifenedig o'r cyfarfodydd gorffennol.

3 **Parc Chwaraeon Trefol -** Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod cyflwyniad wedi cael ei drefnu yn Ysgol Gyfun Llangefni ynglŷn â diogelwch o gwmpas y safle yma.

4 **IRPW -** Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd ei fod wedi bod mewn Cynhadledd yn Llandrindod yn ymwneud a Phanel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Prif bwyntiau'r Gynhadledd oedd :
Pleidlais am gefnogaeth i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ffiniau Cynghorau Cymuned a Thref.
Hyfforddiant i holl Gynghorwyr a Chlercod.
Llawlyfr ar gael yn y Swyddfa yn amlinellu holl wybodaeth y Gynhadledd.

18/117 **CYLLID**

Oherwydd absenoldeb y Swyddog Cyfrifol Ariannol penderfynwyd gohirio trafod yr eitem yma a threfnu Cyfarfod Llawn Arbennig Brys ar gyfer hyn.

1 **Mantolen Ariannol Mis Awst 2018**

2 **Archwiliad Mewnol : Cyngor Gwynedd Awst 2018**
BDO - Ni chafwyd Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ei harwyddo yn ystod y Cyfarfod yma.

18/118 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**

Gohebiaeth :

1 **Pŵer Niwclear Horizon - Derbyn**

2 **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Derbyn**

3 **Grwp Cynefin – Adroddiad Blynyddol 2017/2018 – Derbyn**

4 **Gohebiaeth Newydd : Datganiad Menter Gymdeithasol Llangefni – Cwrs Golff – Derbyn.**

18/119 **RHEOLAU SEFYDLOG :**

Cynghorwyr yn derbyn i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog 2018 diwygiedig.

18/120 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH**

1 **Un Llais Cymru – Materion wedi eu hanfon drwy e-bost yn ystod Misoedd Gorffennaf/Awst 2018 – Derbyn.**

2 **Materion Eraill – Wedi eu hanfon trwy e-bost – Derbyn.**

18/121 **UNRHYW FATER BRYS GAN Y CADEIRYDD**

1 **Damwain – Stryd Fawr**

Cyng. Non Parry wedi rhoi gwybod i'r Swyddfa ei bod yn pryderu yn dilyn damwain diweddar yn y Stryd Fawr.
Cyng. Margaret Thomas yn adrodd ei bod wedi cael trafodaeth gyda Swyddog o'r Adran Priffyrdd, sydd yn ymwybodol o'r pryderon ac yn edrych i mewn i wella'r sefyllfa, efallai rhoi Goleuadau Traffic.
Grŵp Adfywio Llangefni wedi awgrymu arafu'r drafnidiaeth o gwmpas y dref . Trafodaethau yn parhau.

2 **Diogelwch y Swyddfa**

Cyng. Margaret Thomas yn adrodd i'r Cynghorwyr, oherwydd materion iechyd a diogelwch y staff, bod angen diogelu'r drws o fewn y Brif Fynedfa i Neuadd y Sir, sydd yn arwain am y Cyntedd.
Mae Amcan Bris wedi ei dderbyn gan Gwmni lleol, sydd yn cynnwys system CCTV a.y.b.

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig derbyn Opsiwn 2 o'r Amcan Bris a Cyng. Llinos Jones yn Eilio.
Derbyn – Clerc i wneud y trefniadau priodol i'r gwaith fynd ymlaen.

Cyng. J. Egryn Lewis yn gofyn i'r Clerc wneud trefniadau gyda Chyngor Sir Ynys Môn i sicrhau fod y drws ar ochor yr Adeilad yn cael ei drwsio ar frys.

3 **Sul y Cofio 2018**

Cyng. Margaret Thomas yn adrodd i'r Aelodau fod yr Orymdaith eleni yn cychwyn o'r Gofeb ger Plas Arthur er cof o Ganmlwyddiant o'r Cadoediad a ddaeth a'r Rhyfel Cyntaf i ben.

18/122 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 1af o Hydref 2018.

Cynghorydd Margaret Thomas
Dirprwy Faer – 10.09.2018

Diwedd8.30y.h.